| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 8 Gorffennaf 2020 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Julian Thompson Hill |
| **Awdur yr Adroddiad** | Steve Gadd, Pennaeth Gwasanaethau Cyllid ac Eiddo |
| **Teitl** | Datganiad Cyfrifon Drafft 2019/20 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

I ddarparu trosolwg o'r Datganiad Cyfrifon drafft 2019/20 a'r broses sy'n sail iddo.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio wedi dirprwyo cyfrifoldeb i gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig y gobeithir y byddant yn cael eu cyflwyno ar 9 Medi 2019. Mae cyflwyno'r cyfrifon drafft yn rhoi arwydd cynnar o sefyllfa ariannol y cyngor a gall dynnu sylw at unrhyw faterion yn y cyfrifon neu'r broses cyn y cyfrifon yn cael eu harchwilio.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Nodi'r sefyllfa fel y'i cyflwynir yn y cyfrifon drafft (gweler Atodiad 1).

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae gan y cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu datganiad o gyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifyddu cymeradwy. Rhaid i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan aelodau etholedig ar ran y cyngor. Mae'r rôl hon wedi'i dirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r cyfrifon drafft bellach wedi'u cwblhau ac fe'u llofnodwyd gan y Pennaeth Cyllid ar 15 Mehefin (3 Mehefin y llynedd). Mae'r cyfrifon drafft ar gael i'w harchwilio yn ôl yr angen a byddant yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio rhwng 3 Awst a 28

Awst. Mae'r dyddiadau hyn yn hwyrach na'r arfer oherwydd y cyfyngiadau cyfredol sy'n gysylltiedig â Covid 19.

O ystyried rôl y Pwyllgor wrth gymeradwyo'r cyfrifon terfynol, mae'n fuddiol darparu diweddariad a throsolwg yn y cam drafft i'w hystyried cyn cyflwyno'r cyfrifon terfynol ym mis Medi.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol i Lywodraethu Corfforaethol, mae'r dyddiadau cau statudol ar gyfer Llywodraeth Leol yn cael eu dwyn ymlaen fel y manylir yn y tabl isod:

| | Current Dates | Interim Dates for SofA 2018/19 and 2019/20 | Final Position from 2020/21 |
|---|---|---|---|
| **Final date on which the Chief Finance Officer must sign and date the statement of accounts** | 30th June | 15th June | 31st May |
| **Date that council must approve and publish an audited statement of accounts** | 30th September | 15th September | 31st July |

Tynnodd llawer o Awdurdodau Lleol sylw at y pwysau gwaith difrifol a orfodwyd gan yr ymateb ariannol i Covid 19 a buont yn lobïo am estyniad ffurfiol o'r dyddiad cau ar gyfer cyfrifon 2019/20. Er ei fod yn hwyr yn y broses derbyniwyd llythyr ar 30 Ebrill 2020 gan Lywodraeth Cymru at Gyfarwyddwyr Cyllid yn cadarnhau'r canlynol:

“Er mwyn darparu rhywfaint o sicrwydd a fframwaith ar gyfer cwblhau’r cyfrifon blynyddol, rydym yn argymell bod awdurdodau Cymru yn mabwysiadu amserlen ar gyfer cyfrifon 2019-20 yn unol â’r gofynion diwygiedig yn Lloegr. Bydd hyn yn gofyn am baratoi ac ardystio cyfrifon drafft erbyn 31 Awst 2020 a chyhoeddi cyfrifon archwiliedig terfynol erbyn 30 Tachwedd 2020 ar gyfer pob corff llywodraeth leol yng Nghymru. Byddem yn annog cynghorau i gymeradwyo'n gynharach lle bynnag y bo modd ac ymgysylltu â'u harchwilwyr i helpu i reoli'r pwysau cyffredinol ar Archwilio Cymru. Os ydyn nhw'n gweithio tuag at yr amserlen ddiweddarach hon, bydd angen i gyrff sicrhau eu bod nhw'n cyhoeddi'r hysbysiadau gofynnol fel y nodir yn y Rheoliadau. "

Ar ôl trafodaeth fewnol, penderfynodd Cyngor Sir Ddinbych geisio cadw at y dyddiadau cau gwreiddiol. Y newyddion da yw bod y Cyngor wedi cyflawni'r dyddiad cau statudol gwreiddiol ac felly wedi cynnal y cynnydd da tuag at gyflawni'r cyfrifon dros dro a therfynedig nas archwiliwyd fel y dangosir yn y tabl isod:

| Statement of Accounts | Signed off by S151 Officer and passed to WAO |
|---|---|
| 2015/16 | 21-Jun-16 |
| 2016/17 | 13-Jun-17 |
| 2017/18 | 15-Jun-18 |
| 2018/19 | 06-Jun-19 (target) |
| 2019/20 | 15-Jun-20 (revised target) |
| 2020/21 | 31-May-21 (mandatory) |

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon yn sail i stiwardiaeth ariannol a llywodraethu'r cyngor ac felly'n cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r cyngor.

## 6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?

There are no additional cost implications as a result of this report.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?

Mae gweithdrefnau a phrosesau'r cyngor sy'n sail i gynhyrchu'r cyfrifon yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Daw barn broffesiynol o nifer o ddisgyblaethau eraill y tu hwnt i gyllid, megis cyfreithiol, prisio eiddo, AD a phensiynau.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r cyngor. Mae'n bwysig bod aelodau etholedig yn cael sicrwydd bod y cyfrifon wedi'u cynhyrchu yn unol â'r safonau perthnasol a bod y broses sy'n sail i gynhyrchu'r cyfrifon yn gadarn. Mae'n braf iawn bod Datganiad Cyfrifon drafft wedi'i lofnodi erbyn y dyddiad cau gwreiddiol, sef 15 Mehefin. Mae hyn wedi cynnwys llawer iawn o waith caled ar draws y gwasanaeth cyllid yn enwedig o ystyried y gofynion gwybodaeth oherwydd yr ymateb ariannol i Covid 19 a heriau technegol gweithio gartref.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Byddai'r cyngor yn torri ei ddyletswydd statudol pe na allai gymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Tachwedd.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'n ofynnol o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn iawn. Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i'r Archwilydd Penodedig archwilio ac ardystio cyfrifon y cyngor a rhaid iddo fod yn fodlon bod y cyfrifon wedi'u cwblhau yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2018.